Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Cynllun Cymhelliant Cyflogwyr – Prentisiaid Anabl a Chymorth Dysgu Ychwanegol ar gyfer prentisiaethau yng Nghymru: dyraniadau cyllid ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 07 Ionawr 2026 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2026/01 |

| | |
|---|---|
| **At:** | Ddeiliaid Contract a Gomisiynwyd ar gyfer Prentisiaethau |
| **Ymateb erbyn:** | Nid oes angen ymateb |
| **Rhagor o wybodaeth:** | Kelly Hillard / Ceri Sullivan \| prentisiaethau@medr.cymru |


**Crynodeb:**

Mae'r cyhoeddiad hwn yn nodi dyraniadau cyllid Medr i ddeiliaid contract a gomisiynwyd (CCH) ar gyfer prentisiaethau dan y cynllun a gyfunwyd yn ddiweddar sy'n cynnwys y Cynllun Cymhelliant Cyflogwyr – Prentisiaid Anabl (EIS) a Chymorth Dysgu Ychwanegol (ALS) ar gyfer prentisiaethau. Mae'r dyraniadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26. Mae'r ddogfen yn darparu canllawiau ynghylch y gofynion ar gyfer y cyllid a sut i'w weinyddu.



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cyflwyniad

1. Mae’r cyhoeddiad hwn yn darparu gwybodaeth am gyllid y cynllun cyfunol EIS/ALS prentisiaethau ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26, gan gynnwys dyrannu cyfanswm cyllid o £600,000 i ddeiliaid contract a gomisiynwyd, ac mae’n nodi’r meini prawf y bydd angen iddynt hwy a phrentisiaid eu bodloni er mwyn bod yn gymwys i gael cyllid. Anfonwyd llythyrau cyllid ar wahân hefyd at ddeiliaid contract a gomisiynwyd sy’n cael cyllid.

2. Darperir cyllid EIS ac ALS prentisiaethau Medr i gynorthwyo cyflogwyr i ddarparu cyfleoedd i brentisiaid anabl ac i ddarparwyr hyfforddiant gefnogi anghenion dysgu ychwanegol prentisiaid.

3. Anogir darparwyr i hysbysebu’r cyllid sydd ar gael i gynorthwyo cyflogwyr, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill i gynyddu i’r eithaf nifer y prentisiaid anabl sy’n gallu cael budd ac yna’n gallu cofrestru ar raglen brentisiaeth.

## Dull cyllido

4. Mae Medr wedi adnabod blaenoriaethau strategol ar gyfer cyllid ym mlwyddyn ariannol 2025-26 sy’n ystyried data cydraddoldeb gan ddangos ble y gellid gwella deilliannau ac i wneud y defnydd gorau o’r gyllideb sydd ar gael.

5. Blaenoriaethau cyllid EIS/ALS prentisiaethau ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 yw:

   - Prentisiaid anabl;
   - Prentisiaid ag anghenion dysgu ychwanegol.

6. Mae’r trefniadau cyllid fel a ganlyn:

   - Bydd cyllid yn cael ei ddyrannu yn seiliedig ar werthoedd canrannol y prif gontract prentisiaethau ar gyfer 2025/2026.
   - Dangosir cymhwystra, prosesau cyllido a gwerthoedd cyllido yn Fframwaith Rhaglen Comisiynu Prentisiaethau Cymru.

## Cyllid ym mlwyddyn ariannol 2025-26

7. Mae’r gyllideb EIS/ALS prentisiaethau ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26, rhwng 1 Tachwedd 2025 a 31 Mawrth 2026, yn £600,000; gellir defnyddio dyraniadau’n hyblyg ar draws EIS ac ALS hyd at yr uchafswm cyllid a ddyrennir i bob darparwr ar gyfer y cynllun cyfunol.

## Dyraniadau cyllid 2025/26

8. Cyfanswm y cyllid sydd ar gael rhwng 1 Tachwedd 2025 a 31 Mawrth 2026 yw £600,000. Fe’i dyrennir fel a ganlyn:

| **Darparwr** | **Cyfanswm cyllid (£)** |
|---|---:|
| Associated Community Training Ltd | 109,860 |
| Cambrian Training | 33,660 |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | 56,040 |
| Coleg Cambria | 52,980 |
| Educ8 Training Group Ltd | 51,600 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 40,560 |
| Grŵp Llandrillo Menai | 53,100 |
| ITEC Training Solutions | 31,800 |
| Coleg Castell-nedd Port Talbot | 76,440 |
| Coleg Sir Benfro | 93,960 |
| **Cyfanswm** | 600,000 |

**Gofynion a thalu'r cyllid**

9. Caiff manylion llawn sut y bydd taliadau'n cael eu gwneud a gofynion y cynllun cyfunol EIS/ALS eu dangos yn Fframwaith Rhaglen Comisiynu Prentisiaethau Cymru.

**Monitro'r cyllid**

10. Bydd hawliadau deiliaid contract a gomisiynwyd yn erbyn y cyllid a ddyrannwyd yn cael eu monitro'n chwarterol ac os yw'n ofynnol gall cyllid gael ei ailddyrannu i ystyried hawliadau gwirioneddol a rhagamcanol deiliaid contract unigol a gomisiynwyd.

**Amodau'r cyllid**

11. Mae Manyleb Fframwaith Rhaglen Comisiynu Prentisiaethau Cymru'n rhan o'r Cytundeb ar gyfer darparu a chyllido Prentisiaethau ac yn nodi gofynion penodol y mae'n rhaid ymlynu wrthynt wrth gyflawni'r rhaglen brentisiaethau.

**Hyrwyddo prentisiaethau**

12. Rydym yn disgwyl i ddeiliaid contract a gomisiynwyd hyrwyddo'r cyfleoedd hyn i ystod o ddysgwyr, yn enwedig y rhai ag anabledd a/neu anghenion dysgu ychwanegol.

13. Ceir disgwyliad y bydd deiliaid contract a gomisiynwyd ar gyfer prentisiaethau'n cyfranogi yn y canlynol:

- Gweithgareddau marchnata Medr ac ymgyrchoedd cenedlaethol;

- Cystadlaethau sgiliau fel World Skills. Mae'r cystadlaethau hyn yn darparu profiadau a heriau ychwanegol i brentisiaid a fydd o gymorth iddynt yn eu gyrfaoedd. Maent hefyd yn darparu cyfleoedd i ddangos cryfder sector addysg drydyddol Cymru trwy gystadlaethau ledled y DU a chystadlaethau rhyngwladol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael o WorldSkills UK.

**Asesu effaith ein polisïau**

14. Rydym yn cynnal ymarfer sgrinio sy'n asesu effeithiau i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb. Fe wnaethom hefyd ystyried effaith polisïau ar y Gymraeg a darpariaeth prentisiaethau Cymraeg yng Nghymru ac effeithiau posibl tuag at y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant ni. Cysylltwch âg em.cynhwysiant@medr.cymru i gael rhagor o wybodaeth am asesiadau effaith. Darparwyr sy'n gyfrifol am adolygu eu hasesiadau effaith hwy eu hunain mewn perthynas â phrentisiaethau.

15. Ar gyfer yr holl ymholiadau cysylltwch â Kelly Hillard (kelly.hillard@medr.cymru) neu Ceri Sullivan (ceri.sullivan@medr.cymru).

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government